**Rhif:** WG30983

Llywodraeth Cymru
# Dogfen Ymgynghori

# Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion

Dyddiad cyhoeddi: 2 Mawrth 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Mai 2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017

# Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth mewn ysgolion

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Nod yr ymgynghoriad hwn yw cael eich barn ar gynigion i ddisodli'r safonau proffesiynol cyfredol ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgolion. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **4 Mai 2017** fan hwyraf.<br><br>Ysgrifennwch 'Ymgynghoriad safonau' ym mlwch pwnc yr e-bost. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Gwybodaeth am y safonau proffesiynol cyfredol<br>learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=cy<br><br>gov.wales/topics/educationandskills/publications/circulars/becomingateacher/?skip=1&lang=cy<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Tîm Fframweithiau a Safonau Proffesiynol<br>Is-adran Cwricwlwm<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Llywodraeth Cymru<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: professionalstandardsreview@cymru.gsi.gov.uk |

**Diogelu data**

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**
**Crynodeb** **3**
Yr ymgynghoriad hwn 3
Lle'r ydym ni ar hyn o bryd? 3
Pam rydym yn cynnig newidiadau? 4
**Gweledigaeth ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth** **5**
**Datblygu safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth gyda'r proffesiwn** **6**
**Model newydd o safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth** **7**
**Pa newidiadau penodol rydym ni'n eu cynnig?** **8**
**Strwythur newydd i safonau proffesiynol** **10**
**Gweithio gyda'r safonau** **12**
**Amserlen ar gyfer cyflwyno'r safonau newydd** **15**
Crynodeb o'r amserlen 16
Ymatebion 16

# Cyflwyniad

Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016–2021* (Llywodraeth Cymru, 2016) yn amlinellu rhaglen y llywodraeth ar gyfer sbarduno gwelliant yn economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan sicrhau Cymru ddiogel sy'n ffynnu, Cymru iach ac egnïol, Cymru uchelgeisiol sy'n dysgu, Cymru unedig a chysylltiedig. Un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer addysg yw cynnig cymhellion, cydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth ym maes addysgu ac arweinyddiaeth fel ein bod yn codi safonau drwyddi draw, a datblygu hyfforddiant a chyfleoedd i athrawon, arweinwyr a'r gweithlu addysg ehangach.

Mae gan safonau proffesiynol gyfraniad pwysig i'w wneud i gyflawni'r flaenoriaeth hon drwy ddisgrifio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sy'n nodweddu arferion rhagorol a thrwy gefnogi twf proffesiynol.

# Crynodeb

## Yr ymgynghoriad hwn

Mae’r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chynigion i ddisodli Safonau Statws Athro Cymwysedig Cymru 2009; Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (2011) a Safonau Arweinyddiaeth (2011).

Mae’r ymgynghoriad hefyd yn gofyn am sylwadau ar sut gellir defnyddio’r safonau proffesiynol yn fwy effeithiol i alluogi athrawon ac arweinwyr i fyfyrio ar eu harferion a’u datblygu mewn cydweithrediad â’u cydweithwyr a chefnogi eu datblygiad proffesiynol.

Yn olaf, rydym yn gofyn am sylwadau ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno’r safonau.

## Lle’r ydym ni ar hyn o bryd?

Mae safonau proffesiynol cyfredol ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgolion yn cynnwys:

Safonau Statws Athro Cymwysedig Cymru 2009 – mae’r safonau hyn yn cael eu bodloni gan athrawon dan hyfforddiant er mwyn ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) ar ddiwedd cyfnod o addysg gychwynnol i athrawon.

Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (2011) – mae’r safonau hyn yn cael eu bodloni gan athrawon newydd gymhwyso er mwyn cwblhau cyfnod ymsefydlu statudol yn llwyddiannus. Mae’r safonau’n parhau i fod yn berthnasol gydol gyrfa’r athro.

Safonau Arweinyddiaeth (2011) – mae’r safonau hyn yn orfodol i benaethiaid ac mae’n rhaid i’r rhai sy’n dymuno ennill y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth fodloni’r safonau hyn. Gall ymarferwyr eraill eu defnyddio’n wirfoddol i gefnogi eu datblygiad fel arweinwyr.

Caiff y safonau proffesiynol cyfredol eu defnyddio mewn dwy ffordd yn fras:

1. Fel ffordd o asesu addasrwydd ar gyfer dilyniant ar adegau pontio ffurfiol mewn gyrfa:

    - Athro dan hyfforddiant i athro cymwysedig
    - Athro cymwysedig i athro cofrestredig llawn drwy gwblhau cyfnod ymsefydlu statudol.
    - Darpar bennaeth i fod â Chymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth.

    Yn yr amgylchiadau hyn cynhelir asesiad manwl yn erbyn y safonau i sicrhau cysondeb a thrylwyredd.

2. Ym mhob cyfnod arall yng ngyrfa athro neu arweinydd ysgol mae’r safonau’n gweithredu fel cefndir i reoli perfformiad a datblygiad proffesiynol i gefnogi pobl i symud ymlaen yn eu gyrfa. Mae gofyn i ymarferwyr barhau i fodloni’r safonau, sy’n cael eu cadarnhau’n flynyddol yn rhan o’r cylch rheoli perfformiad, ond nid yw’n ofynnol bod y safonau’n cael eu defnyddio fel rhestr wirio ar gyfer asesu.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newid statws y safonau yn y trefniadau uchod ond mae'n gofyn am sylwadau ar sut y gellir defnyddio'r safonau yn fwy effeithiol yn y cyd-destun presennol i gefnogi dysgu a thwf proffesiynol gydol gyrfa ac ehangu'r defnydd o addysgeg effeithiol.

Nid yw'r cyfrifoldeb am gyflogau ac amodau gwaith athrawon ysgol wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ac nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newid y cysylltiadau cyfredol rhwng safonau proffesiynol a threfniadau cyflogau.

## Pam rydym yn cynnig newidiadau?

Mae chwe blynedd wedi mynd heibio ers cynnal yr adolygiad ffurfiol diwethaf o safonau proffesiynol. Mae llawer wedi newid ym myd addysg ers hynny ac mae adolygiadau annibynnol gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)[1], yr Athrawon Tabberer[2], Furlong[3] a Donaldson[4], yn y drefn honno, wedi dangos yr angen am safonau diwygiedig sy'n adlewyrchiad gwell o'r weledigaeth ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yng Nghymru.

Mae'r safonau gwreiddiol wedi cyflawni'r pwrpas oedd ganddynt ar y pryd. Roeddynt yn darparu strwythur a oedd yn disgrifio atebolrwydd proffesiynol athrawon ac arweinwyr. Mae'r safonau hynny yn pennu disgwyliadau gofynnol ac yn darparu cyfeiriad ar gyfer y cylch rheoli perfformiad. Cydnabyddir erbyn hyn bod angen i'r system gyfan fod yn fwy uchelgeisiol er mwyn cyflawni'r disgwyliadau mae'n eu pennu ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae hynny'n golygu disgwyl i'r holl athrawon ac arweinwyr fod yn broffesiynol a defnyddio'r safonau mewn ffordd sy'n helpu pawb dan sylw i gyflawni o'u gorau.

Yn arbennig, mae angen i'r safonau gefnogi dilyniant proffesiynol yn well drwy gysylltu'n agosach â sut mae athrawon yn symud drwy lwybrau datblygu gyrfa. Mae angen i'r safonau gefnogi continwwm o dwf proffesiynol yn hytrach na nifer o gamau nad ydynt yn dilyn ei gilydd o bosibl. Mae cyfyngiadau'r safonau cyfredol yn amlwg gan eu bod yn gofyn am asesu newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn yn erbyn dwy set wahanol o safonau yn gyflym ar ôl ei gilydd, yn aml o fewn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl dechrau addysg gychwynnol athrawon.

Mae trefniant y safonau cyfredol hefyd yn annog canfyddiadau o arweinyddiaeth fel gweithgarwch proffesiynol gwahanol iawn i addysgu, rhywbeth nad yw'n cael ei adlewyrchu mewn arferion proffesiynol o ddydd i ddydd mewn ysgolion effeithiol.

[1] www.oecd.org/edu/Improving-schools-in-Wales.pdf
[2] http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/review-of-initial-teacher-training-in-wales/?skip=1&lang=cy
[3] http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/teaching-tomorrows-teachers/?skip=1&lang=cy
[4] gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculum-for-wales-curriculum-for-life/why-we-are-changing/successful-futures/?skip=1&lang=cy

## Gweledigaeth ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

Mae gweledigaeth Cymru ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn rhoi lle canolog i'r dysgwr ym mhopeth a wnawn, gan sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar addysgu a dysgu rhagorol.

Mae'r weledigaeth yn gweld plant a phobl ifanc yn cael eu hysbrydoli i fod ag awydd dysgu a chymryd rheolaeth gynyddol dros eu dysgu eu hunain. Mae'n adeiladu ar y dystiolaeth rymus am bwysigrwydd canolog addysgu da i gefnogi dysgu effeithiol, sy'n gofyn am ddewis dulliau addysgu'n ofalus mewn perthynas â dibenion y cwricwlwm, ac anghenion a chyfnodau datblygu pob dysgwr.

Mae arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn allweddol i'r weledigaeth hon drwy sicrhau bod arferion arwain yn llywio'r prosesau mewnol, yn sefydlu addysgeg effeithiol ac yn gyrru cydweithio ehangach, gyda'r arloesedd angenrheidiol, a'r cyfan yn sicrhau gwell deilliannau i ddysgwyr. Mae'r disgwyliad o ddysgu proffesiynol parhaus a datblygu gallu arwain pob athro, o'r adeg y byddant yn dechrau yn y proffesiwn, a chefnogi eu datblygiad gydol eu gyrfa, yn rhan hanfodol o'r weledigaeth.

Mae cyflawni'r weledigaeth hon yn gofyn am newid system addysg Cymru yn sylweddol. Mae maes addysg gychwynnol athrawon yn cael ei ddiwygio'n helaeth ac mae cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu drwy gydweithio nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen gydag athrawon, a chefnogaeth briodol gan arbenigwyr o Gymru a thu hwnt. Mae'r fframwaith cymwysterau yn mynd trwy raglen dreigl o newid i'w gysoni'n well â'r modelau gorau, sy'n addas i'n hoes ni. Mae hyn, a datblygu profiadau dysgu proffesiynol effeithiol i'r holl ymarferwyr, yn rhaglen bellgyrhaeddol sy'n cael ei datblygu i sicrhau bod gennym gymuned addysgu gydweithredol, hyderus a medrus sydd wedi'i hyfforddi'n dda, sydd uchel ei pharch ac sy'n cyflawni'r gorau er lles ein dysgwyr.

Mae'r weledigaeth hon ar gyfer y gymuned addysgu'n seiliedig ar y syniad o ymarferwyr fel gweithwyr proffesiynol go iawn sy'n ymdrechu'n gyson i ddatblygu a thyfu. Maent yn ymfalchïo yn eu hymdrechion ac yn ennyn parch gweithwyr proffesiynol eraill a'r dysgwyr y maent yn eu gwasanaethu. Maent yn cymryd cyfrifoldeb am eu hunain ac yn ymestyn y cyfrifoldeb hwnnw i gydweithwyr mewn rhwydwaith byd-eang, gan chwilio am ffyrdd gwell o gyflawni eu nodau.

Mae gan athrawon gyfle i gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc a datblygu cymuned iachach, cymdeithas gryfach a byd gwell. Mae athrawon yn dylanwadu ar y dyfodol wrth weithio gyda'r presennol.

Mae athrawon proffesiynol yn ennyn parch eu cydweithwyr a'r byd ehangach drwy ddyfalbarhau gyda'u disgwyr, gwneud gwaith ymchwil a datblygu eu harferion. Mae'r ffordd yma o edrych ar bethau a'r gweithgareddau hyn yn cychwyn ar ddiwrnod cyntaf eu hyfforddiant ac yn parhau gydol eu gyrfa, boed yn athro ystafell ddosbarth neu mewn rôl arweinyddol ffurfiol, p'un a fyddant yn cyflawni rôl athro ystafell ddosbarth neu rôl arweinyddol ffurfiol, gan gynnwys rôl pennaeth.

Drwy ymuno â'r gymuned addysgu yng Nghymru mae newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn yn ymrwymo i ymestyn eu hunain er mwyn gwasanaethu'r dysgwyr yn y ffordd orau yn holl ysgolion y wlad. Fel gweithwyr proffesiynol, maent yn cydnabod yr angen i geisio bodloni'r safonau uchaf eu hunain er mwyn sicrhau'r cyfleoedd bywyd gorau i bob dysgwr.

## Datblygu safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth gyda'r proffesiwn

Er mwyn cyflawni'n gweledigaeth mae angen i holl athrawon Cymru wybod beth yw'r addysgeg orau a dewis a defnyddio dulliau'n hyderus ac effeithiol a gallu cynnig arweinyddiaeth arloesol, gydweithredol i bob dysgwr ac i'w gilydd. Diben y safonau proffesiynol yw amlygu'r ymagweddau, yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol a dangos sut y gellir datblygu'r rhain ymhellach a'u cynnal. Mae angen iddynt ganolbwyntio ar yr amrywiaeth o sgiliau ac ymddygiad hefyd fel y gall athrawon baratoi am eu rôl yn y cwricwlwm newydd ac er mwyn adlewyrchu nodweddion allweddol rhaglen ddiwygio addysg gychwynnol athrawon.

Mae'r safonau proffesiynol newydd arfaethedig ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth wedi'u datblygu gyda hyn mewn golwg i ailgysyniadoli'r safonau fel dull o ysgogi trafodaeth broffesiynol a chefnogi pob ymarferwr i anelu at arferion effeithiol iawn a pharhaus. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn teimlo synnwyr o berchnogaeth gadarn a didwyll am y safonau wrth weithio fel unigolion ac ar y cyd. Mae angen i bob athro berchnogi ei safonau proffesiynol; maent yn bwyntiau cyfeirio personol sy'n galluogi twf a datblygiad.

Cynlluniwyd y model newydd felly **gyda'r** proffesiwn **ar gyfer y** proffesiwn, gyda chyfraniad helaeth gan ysgolion, sefydliadau addysg gychwynnol athrawon, consortia rhanbarthol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae hyn wedi bod yn fodd o rannu'r safonau drafft yn rheolaidd a'u hailddiffinio wrth eu datblygu. Ers Ionawr 2016 hwyluswyd y gwaith ymgysylltu hwn gan yr Athro Mick Waters, gan adeiladu ar waith paratoadol cynharach a gwblhawyd gydag ymarferwyr ysgolion a rhanddeiliaid eraill.

Mae safonau drafft hefyd wedi'u treialu gan y proffesiwn. Mae ysgolion, o'r Rhwydwaith Arloesi a'r sefydliadau addysg gychwynnol athrawon yn bennaf, wedi gweithio gyda'r safonau drafft ac wedi bod yn rhan o lwybrau ymholi wedi'u trefnu i gefnogi gwaith pellach i ailddiffinio'r safonau, ystyried y ffordd orau o'u defnyddio gydag athrawon ar wahanol gyfnodau o'u gyrfa a'r deunyddiau sydd eu hangen i gefnogi defnydd effeithiol ohonynt. Mae'r adborth o'r treialu hwn wedi bod yn sail i ddatblygiad pellach ac yn rhan o'r broses ymgynghori gyda'r ymgynghoriad ffurfiol hwn ac ymgysylltu pellach yn y dyfodol gyda'r sector.

Wrth i'r model safonau newydd gael ei ddatblygu, cafwyd cyfleoedd i rannu hyn yn ehangach mewn cynadleddau Ysgolion Arloesi, mewn cynadleddau ysgolion rhanbarthol a gweithdai y tu allan i'r rhwydwaith Ysgolion Arloesi, ac mewn cyfarfodydd gyda grwpiau rhanddeiliaid. Mae hyn wedi darparu rhagor o gyfleoedd i brofi egwyddorion a dulliau, i gasglu adborth ac i fireinio'r model ymhellach. Mae dros 1000 o weithwyr proffesiynol wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ac ystyried y safonau proffesiynol newydd hyd yn hyn ac wedi cynnig sylwadau ac awgrymiadau.

# Model newydd o safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth

Mae ymarferwyr o safon eithriadol yn cyfuno doniau addysgeg, arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, arloesedd a chydweithio gyda lefelau uchel o ddeallusrwydd, sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd. Maent yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'r broses ddysgu, brwdfrydedd am lwyddiant a lles y dysgwyr ac mae ganddynt ymrwymiad drwy gydol eu gyrfa i'w datblygiad proffesiynol eu hunain a'u cydweithwyr. Maent yn arddel eu hymddygiad proffesiynol yn gadarn ac yn ymrwymo i ddatblygu i fod yn fwy effeithiol.

Dyma pam mae'r safonau newydd arfaethedig yn rhoi pwyslais ar y broses yn hytrach na'r cynnyrch; diben y safonau a'u disgrifyddion yw cefnogi athrawon ac arweinwyr i adolygu eu gwaith ac i ymdrechu i wasanaethu eu dysgwyr a'u hysgolion yn well.

Mae'r safonau newydd yn nodi'n glir beth yw'r gofynion derbyn i'r proffesiwn ac yn nodi disgwyliadau ar gyfer datblygu gydol gyrfa broffesiynol. Eu nod yw creu cyfle proffesiynol yn ogystal â gweithredu fel porthor ar gyfer mynediad i'r proffesiwn ac i brifathrawiaeth.

Mae'r sgil o arwain wrth reoli'r broses hon yn un bwysig. Nid proses gyflym i farnu tystiolaeth yn erbyn rhestr wirio mohoni. Mae'n golygu creu darlun dros amser sy'n llywio safbwynt yr athro fel y gall fyfyrio ar ei arferion gyda'i reolwr neu ei fentor gyda'r nod o sicrhau gwelliant a datblygiad proffesiynol.

Mae'r safonau newydd arfaethedig yn seiliedig ar **egwyddorion a dibenion** sy'n cynnwys:

- darparu ysbrydoliaeth, gwasanaeth cyfeirio a gweledigaeth o arferion effeithiol iawn sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar brofiadau pob dysgwr
- cyflawni rôl borthora i sicrhau bod yr holl newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn o safon uchel
- bod yn berthnasol i'r holl athrawon a chyfrannu at godi statws y proffesiwn
- cefnogi datblygiad proffesiynol gydol gyrfa sy'n galluogi ac yn ysbrydoli unigolion i arwain eu dysgu proffesiynol eu hunain, a dysgu proffesiynol eraill
- meithrin capasiti arweinyddiaeth ar bob lefel drwy ymwreiddio arweinyddiaeth drwyddi draw
- ffurfio rhan o'r rhaglen newid i gefnogi athrawon i baratoi am eu rôl yn y cwricwlwm newydd a chefnogi nodweddion allweddol diwygio addysg gychwynnol athrawon
- hwyluso datblygiad a chyfeirio at gontinwwm clir o welliannau, gan ddarparu'r adnoddau i athrawon reoli eu perfformiad eu hunain yn effeithiol a hyrwyddo atebolrwydd a rheoli perfformiad effeithiol
- bod yn gludadwy o fewn ac ar draws holl ysgolion Cymru, ac yn safonau y gellir mynd â hwy y hwnt i Gymru
- cysylltu'n effeithiol ag adnoddau datblygu allweddol eraill fel adnoddau rheoli perfformiad a chynllunio datblygiad ysgolion
- bod ar gael yn hawdd drwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol er mwyn cefnogi adolygiad o unigolion a chynlluniau datblygu
- bydd rhaid eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u diwygio rhywfaint i sicrhau bod y safonau'n parhau i ateb y diben.

## Pa newidiadau penodol rydym ni'n eu cynnig?

Mae'r safonau proffesiynol newydd yn dwyn ynghyd y safonau ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth er mwyn adlewyrchu'r llwybrau gyrfa'n well, o ymuno â'r proffesiwn ymlaen, ac mewn ffordd sy'n nodi disgwyliadau'n glir. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n dewis canolbwyntio ar eu gwaith yn yr ystafell ddosbarth yn unig a'r rhai sy'n dewis symud yn eu blaen i ymgymryd â rôl arweinyddol ffurfiol hyd at, ac yn cynnwys, prifathrawiaeth.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy gael set integredig o safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Er mwyn cael eu derbyn i'r proffesiwn, mae'r safon yn disgrifio'r disgwyliadau y mae'n rhaid i athrawon eu cyflawni erbyn diwedd eu cyfnod ymsefydlu statudol. Mae'r safon derbyn hefyd yn disgrifio'r cynnydd disgwyliedig a'r dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer dyfarnu SAC ar ddiwedd addysg gychwynnol athrawon. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd y rhain yn destun asesiad ffurfiol ar yr adegau hyn ond bydd y safon derbyn yn cysylltu'r cyfnodau hyn yn agosach fel bod addysg gychwynnol athrawon a'r cyfnod ymsefydlu yn broses yn hytrach nag yn ddau gyfnod unigryw, ar wahân ac fel bo modd sicrhau dilyniant a datblygiad profiad proffesiynol.

Bydd manylion tystiolaeth a chynnydd ar gyfer SAC yn cyflawni swyddogaeth y safonau proffesiynol y cyfeirir atynt yn y trefniadau achredu newydd sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer pob rhaglen addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru.

Yn achos athrawon sydd wedi cwblhau'r cyfnod ymsefydlu yn llwyddiannus, bydd y safonau'n dangos arferion effeithiol iawn a pharhaus. Nid yw'n fwriad asesu'r rhain yn ffurfiol ond byddant yn gyfle i ddatblygu'r ffocws dyheadol sy'n sail i ddatblygiad gydol gyrfa.

Mae disgrifyddion ychwanegol yn dangos safon arweinyddiaeth ffurfiol i'r athrawon hynny sy'n dewis symud yn eu blaen i ymgymryd â rôl arweinyddol ffurfiol hyd at, ac yn cynnwys, prifathrawiaeth. Mae'r safon arweinyddiaeth yn cael ei mynegi trwy barau o ddisgrifyddion sy'n arddangos arferion cynnar mewn rôl arweinyddol ffurfiol ac arferion arweinyddol effeithiol iawn a pharhaus. Nid yw'r disgrifyddion ar gyfer rôl arweinyddol ffurfiol yn llinol ac nid ydynt yn ymwneud â haenau arweinyddiaeth. Fe'u cynlluniwyd i gael eu defnyddio i lywio datblygiad blaengar ym mhob rôl arweinyddol ffurfiol, o bennaeth cyfnod neu adran i uwch arweinydd neu bennaeth.

Bydd gofynion y rhaglen Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) yn nodi sut bydd y disgrifyddion yn cael eu defnyddio i bennu a ddylid dyfarnu'r CPCP.

Wrth i athrawon ddatblygu trwy eu gyrfaoedd, byddant yn caffael sgiliau newydd, gwell neu fwy soffistigedig, a gall hyn gynnwys derbyn swyddi newydd neu ddyrchafiadau gyda chyfrifoldebau arweinyddol ychwanegol. Efallai y bydd angen derbyn cyfrifoldebau ychwanegol ond, wrth wneud hynny, ni fyddant yn rhoi'r gorau i'w holl gyfrifoldebau blaenorol. Bydd rôl arweinyddol ffurfiol yn cynnwys cyfrifoldebau ehangach, ond mae'r ymrwymiad i addysgu rhagorol yn hollbwysig o hyd. Mae'r elfen o astudio addysgeg yn cael ei mireinio a'i hogi, ac mae'r dylanwad ar gydweithwyr i wella eu haddysgeg yn cael ei ysgogi trwy'r rôl.


Bydd athrawon, lle bynnag maent arni yn eu gyrfa, yn gallu ymgysylltu'n hwylus â'r amrywiaeth lawn o safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth a gweld sut maent yn cysylltu â'i gilydd i ddarparu fframwaith cydlynol i gefnogi datblygiad proffesiynol o'r adeg maent yn ymuno â'r proffesiwn ac ymlaen.

Mae rhagor o wybodaeth am sut dylid defnyddio'r safonau yn yr adran nesaf.

## Strwythur newydd i safonau proffesiynol

Mae gan y safonau proffesiynol newydd set drosfwaol o **hawliau, gwerthoedd ac ymagweddau proffesiynol** a ddylai sbarduno pawb sy'n gweithio gyda dysgwyr. Mae'r rhain yn berthnasol ar draws y fframwaith safonau proffesiynol ac yn cynnwys ymrwymiadau i lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol; i hyrwyddo diwylliant Cymru a'r Gymraeg ac i hawliau pob dysgwr. Mae'r rhain yn rhan annatod o'r safonau proffesiynol ac yn para gydol gyrfa athrawon.

Mae'r safonau addysgu ac arwain newydd yn seiliedig ar bum **dimensiwn** arferion; addysgeg, arloesi, cydweithredu, arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol (Ffigur 1). Mae'r pum dimensiwn hyn yn gyffredin i bob rôl addysgu ac arweinyddol ffurfiol. Mae hyn yn dangos y dylai arweinyddiaeth dyfu o addysgu lle y defnyddir sgiliau a chraffter estynedig ac na ddylid ei ystyried fel rhywbeth yn lle addysgu. Mae dyrchafiad i rôl arweinyddol ffurfiol yn golygu ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb ac addasu ffocws proffesiynol.




Ffigur 1

Mae pob dimensiwn arferion wedi'i rannu yn nifer o **elfennau** sy'n crynhoi prif ffocws y dimensiwn. Mae'r elfennau hyn wedi'u dewis i ganolbwyntio ar nodweddion allweddol diwygio'r cwricwlwm ac ar nodweddion arferion proffesiynol sy'n amlwg o ddechrau addysg gychwynnol athrawon ac wedi hynny.

Yn eu tro mae pob elfen yn cael ei mynegi drwy ddau **ddisgrifydd**. Mae'r rhain yn disgrifio'r arferion proffesiynol sy'n ofynnol i ymuno â'r proffesiwn neu i ymgymryd â rôl arweinyddol ffurfiol, ac yna'n mynd ymlaen i ddangos arferion effeithiol iawn a pharhaus.

Mae ysgolion yn llefydd cymhleth ac mae addysgu'n rôl gymhleth. O ganlyniad, mae rhai o'r disgrifyddion yn gymhleth. Ni ellir symleiddio neu wanhau'r wyddor, y grefft a'r gelfyddyd o addysgu i ychydig o ymadroddion neu frawddegau syml. Mae'r ffaith bod y

disgrifyddion yn annog athrawon ac arweinwyr i feddwl, ystyried a sgwrsio am gymhlethdod prosesau addysgu ac arwain ysgolion yn talu teyrnged i'r proffesiwn.

Datblygwyd pecyn sleidiau am y safonau proffesiynol sy'n nodi'r gofynion ar adegau ffurfiol mewn gyrfa, ac mae'n darparu disgrifyddion o arferion addysgu ac arweinyddiaeth effeithiol iawn ac yn galluogi ystyriaeth o'r berthynas rhwng dimensiynau, elfennau a disgrifyddion.

Gallwch gael y pecyn sleidiau ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau.

## Gweithio gyda'r safonau

Gellir defnyddio'r safonau'n effeithiol mewn nifer o ffyrdd, rhai ohonynt yn dibynnu ar bwynt gyrfa, rôl neu ddyheadau.

Bydd arferion gorau yn gweld athrawon yn gweithio mewn ysgol sy'n cael ei harwain yn dda lle mae'r pennaeth ac uwch arweinwyr yn meithrin trafodaeth sy'n datblygu ynghylch y safonau i ddatblygu, lledaenu, dyfnhau ac arloesi addysgeg effeithiol.

Mewn rhaglenni addysg gychwynnol athrawon, bydd y disgrifyddion ar gyfer SAC yn llywio'r broses o gynllunio cwricwlwm addysg gychwynnol athrawon, felly bydd ganddynt rôl allweddol o ran achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon. Bydd darparwyr addysg gychwynnol athrawon yn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn cael cyfle i ddangos tystiolaeth ar draws yr ystod lawn o ddisgrifyddion ar gyfer dyfarnu SAC, gan sbarduno cynnydd tuag at gyflawni'r safon derbyn erbyn diwedd y cyfnod ymsefydlu statudol.

Dylid defnyddio'r safonau gyda'r Pasbort Dysgu Proffesiynol fel adnodd i gefnogi myfyrio personol, i nodi cryfderau a rhoi cipolwg ar feysydd i ddatblygu arferion. Bydd datblygiad parhaus y Pasbort Dysgu Proffesiynol, dan arweiniad Cyngor y Gweithlu Addysg, yn archwilio sut y gall ddarparu mwy o gyfle i ryngweithio â'r safonau, i gasglu enghreifftiau ymarferol o'r safonau ar waith ac i rannu'r rhain gyda chydweithwyr.

Mae myfyrdod personol yn fwy treiddgar pan fydd cydweithiwr yn trafod gyda chi, felly ar adegau yn ystod y flwyddyn ysgol, gallai'r athro fyfyrio ar agweddau ar y safonau gydag un neu fwy o'i gydweithwyr. Efallai y bydd grŵp o gydweithwyr yn cytuno i ganolbwyntio ar ddetholiad o ddisgrifyddion i edrych yn fanylach ar eu harferion cyffredin.

Ar adegau, ac o leiaf unwaith y flwyddyn, dylai mentor neu reolwr llinell ystyried effeithiolrwydd ei arferion gyda'r athro i helpu i greu proffil o ddatblygiad dros amser. Yn ogystal â chefnogi'r unigolyn mae'n rhoi cyfle i arweinydd y tîm edrych ar gryfderau ac anghenion y tîm cyfan ac ystyried y ffordd orau o ddefnyddio cryfderau neu gymorth ategol o rywle arall.

Nid yw disgrifyddion y safonau'n llinol na chynyddol. Bydd rhai agweddau ar y disgrifyddion ar gyfer arferion effeithiol iawn yn cael eu harfer gan athro newydd gymhwyso ac efallai y bydd pennaeth adran neu arweinydd cyfnod eisoes yn hyddysg mewn rhai agweddau ar arweinyddiaeth a ddisgwylir gan benaethiaid. Dyma sut mae arweinyddiaeth effeithiol yn cael ei gwireddu ar bob lefel a dyma pam na chyflwynwyd y safonau a'u disgrifyddion mewn rhestr neu siart. Cydnabyddir bod addysgu yn aml-haenog ac nad yw datblygiad proffesiynol yn llinell syth. Mae'n cynnwys nodi a datrys problemau, ymgymryd â her, cael eich herio gan gymhlethdod ar adegau ond dod o hyd i ffordd ymlaen. Felly, caiff y safonau eu cyflwyno fel dyheadau proffesiynol cadarnhaol ehangol yn hytrach na rhannau llai o rôl gymhleth.

Dyma pam mai dim ond un set arall o ddisgrifyddion sydd yna, yn dangos arferion effeithiol iawn a pharhaus, y tu hwnt i'r lefelau derbyn ffurfiol mewn addysgu ac arwain. Mae'r model confensiynol o safonau proffesiynol yn cyflwyno disgrifyddion fel camau lle mae'r athro neu'r arweinydd yn gadael un lefel o gymhwysedd ac yn camu ymlaen i'r

nesaf, yn aml yn gysylltiedig â lefel statws uwch. Yng Nghymru, ein nod yw galluogi pob athro i ddatblygu arferion trwy ganolbwyntio ar y pum dimensiwn.

Mae meysydd ar gyfer twf yn cael eu hamlygu trwy drafod cynnydd ar hyd ystod o ddisgrifyddion lle mae rhai yn cysylltu'n naturiol ag eraill a nodi'r camau pwysig hynny a newidiadau mewn arferion sy'n helpu ymarferydd i ddangos twf proffesiynol. Yn ogystal â chasglu'r dystiolaeth i brofi cymhwysedd, mae'n cyflwyno celfyddyd a gwyddor addysgu i bobl graffu arno mewn ffordd gefnogol ac adeiladol. Mae hyn yn amlygu agweddau ar arferion y gellid eu datblygu ymhellach i wella addysgu ac arwain.

Er mwyn adlewyrchu natur ddeinamig y safonau, byddant yn rhyngweithiol ac yn cael eu cynnal ar-lein, yn gysylltiedig â'r Pasbort Dysgu Proffesiynol a byddant yn darparu adnodd ar gyfer twf proffesiynol gydol gyrfa. Bydd y safonau proffesiynol yn cael eu darparu ar wefan Dysgu Cymru ac yn dangos sut mae disgrifyddion o un elfen yn cysylltu ag eraill. Mae hyn yn adlewyrchu sut mae un haen o addysgu'n dylanwadu ar haen arall ac fel arall. Gydag amser, bydd enghreifftiau o arferion ysgolion yn cael eu hychwanegu yma i roi cipolwg ar sgyrsiau proffesiynol am effeithiolrwydd.

Dylai'r safonau fod yn ddiddorol o safbwynt proffesiynol a dylent hwyluso athrawon ac arweinwyr i gasglu a rhannu enghreifftiau o'u gwaith datblygol fel rhan naturiol o'u rôl. Bydd hon yn broses bwrpasol wedi'i threfnu sy'n cael ei chyfoethogi a'i chefnogi drwy gydweithio â chydweithwyr.

Ar adegau o ddatblygiad proffesiynol, fel dyfarnu SAC, diwedd y cyfnod ymsefydlu neu ddechrau ar brifathrawiaeth (CPCP), bydd y disgrifyddion yn nodi disgwyliadau gofynnol. Bydd trefniadau asesu yn darparu'r sicrwydd angenrheidiol bod y safonau wedi'u bodloni'n llawn, neu nad ydynt wedi'u bodloni.

Bydd y safonau newydd yn parhau i gael eu defnyddio fel cefndir i'r broses rheoli perfformiad ond nid dyma'r unig sbardun ar gyfer trafodaeth ddeallus. Gall y disgrifyddion fod yn ffocws ar gyfer trafodaeth broffesiynol a gellir eu defnyddio i lunio cyfres o dargedau hylaw a phriodol, ynghyd â chytundeb am y cymorth sydd ei angen i alluogi datblygiad. Fodd bynnag, ni fydd yn briodol defnyddio'r safonau a'u disgrifyddion fel rhestr wirio flynyddol ar gyfer cymhwysedd neu dwf proffesiynol ac i drin pob disgrifydd fel rhywbeth sydd 'wedi'i gyflawni neu heb ei gyflawni'.

Yn yr un modd, nid yw'r safonau wedi'u cynllunio i ysgogi gweithdrefnau mewn perthynas â medrusrwydd neu gymhwysedd. Yn achos y gyfran fechan iawn o athrawon ac arweinwyr sy'n methu gweithio'n effeithiol, mae angen gweithredu i gynnal hawliau'r dysgwr a diogelu uniondeb proffesiynol. Fodd bynnag, er efallai y bydd yn rhaid barnu perfformiad a chynnydd yr athro neu'r pennaeth sy'n destun gweithdrefnau medrusrwydd o dan amgylchiadau penodol, nid yw'r safonau eu hunain yn gyfres o gymwyseddau sy'n rhaid eu defnyddio fel mater o drefn i farnu athrawon.

Yn gryno, dyma fwriad y safonau proffesiynol newydd:

- bod yn ffocws ar gyfer datblygiad proffesiynol unigolyn
- disgrifio rolau cymhleth addysgu ac arweinyddiaeth
- bod yn gyfrwng ar gyfer twf gydol gyrfa
- bod yn sail ar gyfer sgwrs broffesiynol barhaus er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu
- bod yn gyfrwng i wella deilliannau dysgu i bob dysgwr, yr ysgol a'r wlad.

**Nid** ydynt wedi'u bwriadu i fod:

- yn ddigwyddiad blynyddol
- yr unig adnodd i'w ddefnyddio wrth gynnal cyfweliadau rheoli perfformiad
- yn gyfres dameidiog o sgiliau sy'n lleihau statws proffesiynoldeb
- yn ddull o reoli er mwyn galluogi arweinyddiaeth a llywodraethu
- yn broses rheoli sefydliadol.

## Amserlen ar gyfer cyflwyno'r safonau newydd

Y bwriad yw cyhoeddi'r safonau newydd terfynol yn nhymor yr haf ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Byddant ar gael i'w defnyddio o 1 Medi 2017 gyda'r holl athrawon mewn swydd yn gorfod symud i'r safonau newydd erbyn mis Medi 2018.

Gan ei bod hi'n fwriad i'r athro unigol berchnogi'r safonau, cynigir mai'r unigolyn ddylai benderfynu pryd i symud i'r safonau newydd o fewn y cyfnod hwn. Gyda rhai eithriadau, gall pob athro a phennaeth ddewis symud i'r safonau newydd ar adeg briodol cyn 1 Medi 2018.

Bydd yr eithriadau yn cynnwys:

- athrawon newydd gymhwyso sy'n dechrau ar y cyfnod ymsefydlu ar neu ar ôl 1 Medi 2017 a fydd yn dechrau eu cyfnod ymsefydlu yn gweithio i'r safonau newydd. Bydd hyn yn osgoi'r angen i newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn weithio i gyfres o safonau a fydd yn diflannu'n syth wrth iddynt gwblhau eu cyfnod ymsefydlu. Byddwn yn gweithio gyda'r consortia rhanbarthol i sicrhau bod cymorth priodol ar gael.
- Athrawon newydd gymhwyso a ddechreuodd eu cyfnod ymsefydlu cyn 1 Medi 2017 a fydd yn parhau i ddefnyddio'r safonau presennol i gwblhau eu cyfnod ymsefydlu. Mae hyn yn golygu y bydd yr athrawon newydd gymhwyso'n gweithio gyda'r un safonau a oedd mewn grym ar ddechrau eu cyfnod ymsefydlu gan osgoi'r angen am newid safonau yn ystod eu cyfnod ymsefydlu.
- Athrawon a phenaethiaid sy'n destun gweithdrefnau disgyblu, galluogrwydd neu gymhwysedd lle bydd y broses ffurfiol yn dod i ben cyn y bydd yr unigolyn yn trosglwyddo i'r safonau newydd.

Bydd y rhan fwyaf o athrawon a phenaethiaid yn dewis trosglwyddo i'r safonau newydd yn syth ond hwyrach y bydd yna reswm da dros drefnu bod y trosglwyddo'n cyd-daro â digwyddiadau fel cychwyn rôl newydd, dyrchafiad neu newid ysgol. Fel arall, gall yr unigolyn benderfynu trosglwyddo i'r safonau newydd ar yr adeg fwyaf priodol yn y cylch rheoli perfformiad i sicrhau bod y ffocws yn eglur.

Yn achos darparwyr addysg gychwynnol athrawon, bydd y safonau newydd yn ffurfio rhan o'r trefniadau achredu newydd ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. Disgwylir i'r rhain ddod i rym yn y rhaglenni addysg gychwynnol athrawon newydd a fydd yn dechrau ym mis Medi 2019. Yn y cyfamser, gwahoddir darparwyr addysg gychwynnol athrawon i ystyried gweithio tuag at y safonau newydd o fis Medi 2018. Bydd disgwyl i ddarparwyr addysg gychwynnol athrawon sicrhau bod darpar athrawon sy'n derbyn hyfforddiant cyn Medi 2018 yn cael cyfleoedd i ymgyfarwyddo â'r safonau cyn gweithio tuag at y safonau newydd fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu statudol.

## Crynodeb o'r amserlen

| | |
|---|---|
| **2017** | |
| Mai | Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad. |
| Medi | Y safonau ar gael i'w defnyddio mewn ysgolion.<br>athrawon newydd gymhwyso sy'n dechrau ar eu cyfnod ymsefydlu ar neu ar ôl 1 Medi yn symud yn syth i'r safonau newydd.<br>Unigolion eraill yn dewis pryd i symud i'r safonau newydd. |
| **2018** | |
| Medi | Y safonau'n cael eu mabwysiadu gan bob athro a phennaeth mewn swydd[5].<br>Y safonau ar gael i'w defnyddio mewn rhaglenni addysg gychwynnol athrawon. |
| **2019** | |
| Medi | Y safonau'n berthnasol i bob rhaglen addysg gychwynnol athrawon newydd. |

## Ymatebion

Mae cwestiynau penodol wedi'u rhestru yn y ffurflen ymateb ar wahân ac mae croeso i chi ddarparu atebion i'r cwestiynau hyn neu roi sylwadau mwy cyffredinol. Gellir cyflwyno'r rhain yn electronig neu ar ffurf copi caled, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar dudalen 2 y ddogfen hon.

[5] Eithriadau wedi'u hamlinellu uchod